

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Blaenoriaethau BGC - Diweddariad Cynnydd Gaeaf 2018

Pobl – Lles Meddwl Da

Mae grŵp lles meddyliol wedi ei sefydlu, lle –

- Cynhaliwyd gweithdy dechreuol ym mis Tachwedd 18 i archwilio materion ac amcanion ynglŷn â lles meddyliol yn yr ardal a helpu i nodi cwmpas ar gyfer cynllun cyflawni.
- Bydd argymhellion o'r gweithdy a'r camau gweithredu nesaf yn cael eu hystyried mewn cyfarfod yr is-grŵp yn Chwefror 2019.

Cymuned – Grymuso'r Gymuned

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mehefin 2018 i ddod â phartneriaid ynghyd, a gofyn lle byddai cydweithio ar draws themâu gwahanol yn gwneud gwahaniaeth. Nodwyd tri maes gwaith ar gyfer gweithio ymhellach:

Presgripsiynu Cymdeithasol, Cefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n byw gyda dementia (a'r rhai sy'n gofalu amdanynt) a Digartrefedd

Lle – Gwytnwch Amgylcheddol

Mae gweithgorau'r amgylchedd yn parhau i wneud cynnydd yn y meysydd canlynol –

- Addewid Gwyrdd i'r Gymuned – mae'r grŵp yn edrych ar sut a lle gall cymunedau fynd yn fwy gwyrdd ac awgrymu newidiadau gwyrdd y gallent eu gwneud. Byddent yn gofyn am eich barn chi ar hyn yn fuan.

Polisi Amgylcheddol – mae'r grŵp yn edrych i ddatblygu nodau amgylcheddol cyffredin y gall holl bartneriaid weithio tuag atynt, a'u dosbarthu yn y tymor byr, canolig a hirdymor.

Cyfarfodydd BGC Conwy a Sir Ddinbych

Mae cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd! Mae dyddiadau ac amseroedd y cyfarfodydd i ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 wedi eu rhestru isod (mae dyddiadau 2019/2020 yn cael eu trefnu ar hyn o bryd) –

Document title

- Dydd Llun, 25 Mawrth 2019 – 1.30pm i 4.30pm (Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Rhyl)
- Mae agenda, adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd ar gael ar wefan papurau bwyllgor [PSB Conwy a Sir Ddinbych](#).

Gweithdai Byrddau Iach

Penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ei bod yn amser adlewyrchu ar gynnydd a'r hyn y gallent ei wella fel Bwrdd.

[Academi Cymru](#) a gynhaliodd y sesiwn i helpu aelodau i nodi'r heriau a chyfleoedd o gydweithio ac i hybu'r ddarpariaeth o amcanion lles.

Roedd argymhellion a dysgeidiaethau allweddol y bydd y bwrdd yn archwilio yn y cyfarfod nesaf.

Gweithdy BGC a Chyngor Tref a Chymuned

Ym mis Ionawr 2019, cynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ddigwyddiad ar y cyd gyda chynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned.

Roedd y digwyddiad yn rhoi cyfle i rannu dysg rhwng y Byrddau a'r Cyngorau Tref a Chymuned, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd o wella ein perthynas a chydweithio'n well yn y dyfodol. Roedd syniadau da o ran cyfathrebu'n well.

Cysylltu â ni

Am mwy wybodaeth am the BGC Conwy a Sir Ddinbych, ewch i...

www.conwyanddenbighshirepsb.org.uk, e-bôst sgwrsysir@conwy.gov.uk neu ffonio 01492 574059